OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1268

## Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015

## RHAN 1

### Materion i'w hystyried wrth benderfynu a yw llety yn addas ar gyfer personau sydd mewn angen blaenoriaethol neu y gallent fod mewn angen o'r fath

**3.** Wrth benderfynu at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf 2014 a yw llety yn addas ar gyfer person sydd mewn angen blaenoriaethol neu y gall fod mewn angen o'r fath(**1**), rhaid ystyried, pan fo'n briodol, y materion a ganlyn yn ymwneud â pherson sydd naill ai yn geisydd, neu sy'n aelod o aelwyd y ceisydd—

(a) anghenion iechyd penodol y person;

(b) agosrwydd a hygyrchedd cymorth teuluol;

(c) unrhyw anabledd sydd gan y person;

(d) agosrwydd a hygyrchedd cyfleusterau meddygol, a gwasanaethau cymorth eraill—

(i) sydd ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio gan y person neu'n cael eu darparu iddo; a

(ii) sy'n hanfodol er llesiant y person;

(e) pan fo'r llety wedi ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod, pellter y llety o ardal yr awdurdod;

(f) arwyddocâd unrhyw darfu a fyddai'n cael ei achosi gan leoliad y llety o ran cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu neu addysg y person; ac

(g) agosrwydd cyflawnwyr honedig a dioddefwyr cam-drin domestig.

(**1**) *Gweler* y diffiniad o "angen blaenoriaethol" yn adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.